# Cod Ymddygiad
# Rhyddid i Lefaru

| Dyddiad | Diben Cyhoeddi / Disgrifiad o'r Newid | Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei gwblhau |
|---|---|---|
| Hydref 2011 | Cyhoeddiad Cyntaf | |
| 8 Mehefin 2015 | Adolygiad - fersiwn 2 | 28 Gorffennaf 2015 |
| 19 Mai 2016 | Adolygiad - fersiwn 3 (cymeradwywyd gan y Grŵp Goruchwylio Rhyddid i Lefaru) | |
| 7 Chwefror 2017 | Mân newid wedi ei gymeradwyo gan Gadeirydd y Grŵp Goruchwylio Rhyddid i Lefaru | |
| 28 Ionawr, 2019 | Adolygiad - fersiwn 5 | |
| 3 Mehefin 2019 | Mân newidiadau, ar ôl ystyried y ddogfen *"Freedom of Expression: a guide for higher education providers and students' unions in England and Wales"* gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | |
| 19 Ionawr, 2021 | Newidiadau i ystyried cyd-destun gweithredu ar-lein | |

| Swyddog Polisi | Yr Uwch Swyddog Cyfrifol | Cymeradwywyd gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio | Prif Swyddog Gweithredu | Grŵp Tasg Cydymffurfio | 19 Ionawr, 2021 |

*Caiff y Cod Ymarfer hwn ei adolygu ymhen 3 blynedd*

**A. DIBEN Y COD**

Yn unol â'r ddyletswydd a osodwyd ar Brifysgol Bangor gan Adran 43 Deddf Addysg [Rhif 2] 1986, mae Cyngor y Brifysgol wedi mabwysiadu'r cod ymarfer canlynol gyda'r bwriad o sicrhau bod rhyddid i lefaru o fewn y gyfraith yn cael ei sicrhau i aelodau, myfyrwyr a staff Prifysgol Bangor a siaradwyr gwadd.

Mae'r Cod Ymarfer hwn hefyd wedi cael ei fabwysiadu gan Fwrdd Ymddiriedolwyr Undeb y Myfyrwyr sydd â'u trefn weithredu eu hunain sy'n cwmpasu'r holl weithgareddau a gynhelir dan faner Undeb y Myfyrwyr (yn cynnwys Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor tra bo'n gysylltiedig ag Undeb y Myfyrwyr.)

**B. PWYSIGRWYDD RHYDDID I LEFARU**

Mae Prifysgol Bangor ac Undeb Myfyrwyr Bangor eisiau annog trafodaeth rydd, gytbwys ac agored gan fod hynny'n gonglfaen diwylliant prifysgolion. Mae hyn yn cynnwys mynegi a rhannu syniadau, goddef barn pobl eraill a chael anghytundeb adeiladol.

Mae Prifysgol Bangor ac Undeb Myfyrwyr Bangor eisiau creu amgylchedd sy'n annog parch tuag at wahanol ddiwylliannau, crefyddau, daliadau gwleidyddol a ffyrdd o fyw gyda ffiniau eglur ynglŷn â beth yw ymddygiad derbyniol ac annerbyniol.

Y man cychwyn wrth ystyried unrhyw ddigwyddiad o dan y Cod hwn yw bod modd ei gynnal, er y bydd rhai sefyllfaoedd lle bydd angen i'r Brifysgol ddefnyddio barn i gydbwyso dyletswyddau cyfreithiol eraill.

**C. RHYDDID ACADEMAIDD**

Mae Rhyddid i Lefaru yn berthnasol i egwyddor rhyddid academaidd ond ni ddylid cymysgu rhyngddynt. Mae rhyddid academaidd yn ymwneud ag annibyniaeth ddeallusol academyddion mewn perthynas â'u gwaith, gan gynnwys y rhyddid i ymgymryd ag ymchwil a phenderfynu ar gynnwys cwrs heb ymyrraeth ormodol.

Fel rhan o'i dyletswyddau o dan Erthygl 10 y Ddeddf Hawliau Dynol, ac Adran 43 y Ddeddf Addysg [Rhif 2] rhaid i'r Brifysgol amddiffyn rhyddid academaidd aelodau staff academaidd. Ni fwriedir i'r Cod hwn rwystro rhyddid academaidd yn ormodol.

**D. RHOI'R COD HWN AR WAITH**

1. Mae'r Cod hwn yn berthnasol i Aelodau Cyngor, myfyrwyr, staff, siaradwyr gwadd, swyddi er anrhydedd a chyfarwyddwr Prifysgol Bangor, yn ogystal ag i Ymddiriedolwyr, clybiau, cymdeithasau, cynrychiolwyr cwrs, gwirfoddolwyr a swyddogion sabothol Undeb Myfyrwyr Bangor.

2. Mae'r Cod hwn yn berthnasol i'r holl ddigwyddiadau a gynhelir yn enw'r Brifysgol boed hynny ar dir y Brifysgol neu oddi ar y campws mewn safleoedd nad ydynt yn rhan o'r Brifysgol. Mae hefyd yn cwmpasu gweithgareddau a gynhelir ar-lein trwy lwyfannau megis Microsoft Teams neu Zoom.

3. Bydd defnydd o'r gair 'Prifysgol' yn cynnwys Prifysgol Bangor ac unrhyw un a phob un o'i his-gwmnïau a'i hendidau masnachu sy'n eiddo llwyr i'r Brifysgol. Bydd defnydd o'r geiriau 'Undeb

y Myfyrwyr' yn cynnwys pob un o weithgareddau Undeb y Myfyrwyr.

4. Bydd safle'r Brifysgol yn cynnwys pob adeilad ac unrhyw adeilad sy'n eiddo i'r Brifysgol neu a reolir, a brydlesir, a drwyddedir neu a ddefnyddir fel arall gan y Brifysgol. Gellir cael rhestr o adeiladau o'r fath ar gais gan y Gwasanaethau Eiddo a Champws.

**E. EGWYDDORION Y COD**

1. Bwriad y Cod Ymarfer, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, yw na wrthodir mynediad i adeiladau'r Brifysgol i unrhyw unigolyn neu grŵp o bobl ar unrhyw sail sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

   [a] credoau neu farn yr unigolyn neu'r corff hwnnw; neu,
   [b] bolisi neu amcanion y corff hwnnw.

2. Ymhellach, bwriad y Cod Ymarfer hwn yw ystyried unrhyw ymgais i rwystro rhyddid i lefaru ynghylch credoau a barn trwy rwystro neu ymyrryd â chyfarfodydd neu weithgareddau (boed hynny wyneb yn wyneb neu ar-lein) fel achos difrifol o dorri disgyblaeth y Brifysgol fydd yn golygu y gellir cymryd camau disgyblu yn erbyn unrhyw droseddwr dan yr Ordinhadau a'r Rheoliadau perthnasol, neu brosesau disgyblu cyfatebol Undeb y Myfyrwyr lle bo hynny'n berthnasol.

3. Mae'r cod hwn yn amlinellu'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i unrhyw unigolyn neu grŵp o bobl eu dilyn wrth drefnu unrhyw ddigwyddiad cyhoeddus, neu breifat, neu unrhyw ddigwyddiad a gynhelir ar eiddo'r Brifysgol (gan gynnwys adeiladau a ddefnyddir gan Undeb y Myfyrwyr), oddi ar y campws neu ar-lein yn enw'r Brifysgol, a'r ymddygiad sy'n ofynnol mewn perthynas â chyfarfod neu weithgaredd o'r fath.

4. Mae'n rhaid i'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr ystyried ymrwymiadau cyfreithiol eraill (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 a Deddf Iawndal 2006) a all ei gwneud yn ofynnol ystyried yr hyn a ddwedir neu'r hyn a wneir ar Eiddo'r Brifysgol, neu mewn perthynas â digwyddiad a gynhelir yn enw'r Brifysgol oddi ar y campws. Felly ystyrir bod ysgogi trais, eithafiaeth dreisgar a / neu gasineb hiliol yn torri disgyblaeth y Brifysgol ac y gellir cymryd camau disgyblu yn erbyn unrhyw droseddwr.

5. Mae'r Cod hwn yn rhoi cyfrifoldeb personol ar unrhyw unigolyn neu grŵp o bobl sy'n trefnu cyfarfod neu ddigwyddiad neu weithgaredd (y cyfeirir atynt at ddiben y cod hwn fel 'digwyddiad') i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod hwn.

6. Mae'r Brifysgol / Undeb Myfyrwyr yn cadw'r hawl i wrthod, canslo, gwahardd neu osod amodau ar gynnal unrhyw ddigwyddiad ar Safle'r Brifysgol, unrhyw ddigwyddiad yn enw'r Brifysgol a gynhelir oddi ar y campws, neu unrhyw ddigwyddiad a gynhelir ar-lein, a allai, ym marn y Prif Swyddog Gweithredu / Ysgrifennydd y Brifysgol arwain at dorri'r gyfraith.

7. Os bydd unrhyw aflonyddwch yn digwydd yn ystod, neu mewn perthynas â digwyddiad dan y Cod hwn, mae'n ofynnol bod yr unigolyn neu'r grŵp o bobl sy'n trefnu'r digwyddiad yn darparu adroddiad ysgrifenedig llawn a manwl i'r Prif Swyddog Gweithredu / Ysgrifennydd y Brifysgol yn disgrifio'r aflonyddwch. Caiff y cyfryw adroddiad ei gyflwyno i Ysgrifennydd y Brifysgol o fewn 1 diwrnod gwaith i gynnal y digwyddiad.

**F. GWEITHREDU**

1. Trwy hyn, mae Cyngor Prifysgol Bangor yn penodi'r Prif Swyddog Gweithredu / Ysgrifennydd y Brifysgol i weithredu ar ei rhan i sicrhau, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, bod holl aelodau, myfyrwyr, aelodau staff, cyfarwyddwyr y Brifysgol, aelodau er anrhydedd a siaradwyr gwadd yn cydymffurfio â darpariaethau'r Cod hwn.

   Gall Prif Swyddog Gweithredu / Ysgrifennydd y Brifysgol benodi aelodau llawn amser eraill o staff y Brifysgol i weithredu ar ei ran i reoli gofynion gweithredol y Cod Ymarfer hwn. Mae Ysgrifennydd y Brifysgol wedi penodi'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio, yn y Swyddfa Llywodraethu a Chydymffurfio i weithredu yn hyn o beth.

2. Gall y Prif Swyddog Gweithredu / Ysgrifennydd y Brifysgol farnu bod digwyddiad o'r fath yn ddigwyddiad 'dynodedig' ac o'r herwydd yn dod o fewn gofynion y Cod hwn, pan fo'n rhesymol disgwyl yn eu tyb hwy:-

   [a] y gallai'r siaradwr gael ei rwystro rhag mynd i mewn neu adael yr ystafell a archebwyd ar gyfer y cyfarfod a/neu rhag rhoi anerchiad ar y pwnc a drefnwyd; neu
   [b] bod perygl i ddiogelwch y bobl fydd yn mynychu'r digwyddiad[1]; neu
   [c] y gallai arwain at ddifrod i eiddo'r Brifysgol neu i adeiladau Brifysgol; neu
   [d] y gallai ddwyn anfri y Brifysgol.

   Wrth ystyried y ffactorau hyn, bydd y Prif Swyddog Gweithredu / Ysgrifennydd y Brifysgol yn rhoi ystyriaeth ddyledus i ffactorau megis costau ac elfennau ymarferol darparu adnoddau er mwyn sicrhau diogelwch rhesymol eiddo a phobl.

3. Caiff y gweithdrefnau ar gyfer dynodi digwyddiadau eu hamlinellu yn Atodiadau'r Cod hwn.

4. Bydd y Prif Swyddog Gweithredu / Ysgrifennydd y Brifysgol yn hysbysu Cyngor y Brifysgol yn y cyfarfod nesaf am unrhyw ddigwyddiadau yn y Brifysgol yr ystyriwyd eu bod yn ddigwyddiadau dynodedig.

5. Gellir ystyried bod methiant i roi rhybudd priodol am gyfarfod sy'n dod o fewn y ddarpariaeth yn yr Atodiad yn torri disgyblaeth y Brifysgol.

6. Fodd bynnag, ni ystyrir bod methiant i ddynodi cyfarfod yn cyfiawnhau nac yn lliniaru'r ymddygiad y cyfeiriwyd ato yn E(2).

**G. APELIO**

1. Gall trefnydd unrhyw ddigwyddiad y bernir gan y Prif Swyddog Gweithredu / Ysgrifennydd y Brifysgol ei fod yn dod o fewn gofynion y Cod hwn apelio yn erbyn y penderfyniad i'r Is-ganghellor o fewn 4 diwrnod o gael ei hysbysu o hynny.

2. Bydd penderfyniad yr Is-ganghellor yn derfynol ond bydd yn rhaid adrodd yn ei gylch yng nghyfarfod nesaf Cyngor y Brifysgol.

---

[1] Naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein

3. Gall trefnydd unrhyw ddigwyddiad a ddynodir apelio i'r Is-ganghellor yn erbyn unrhyw gyfyngiadau neu amodau a bennir gan Ysgrifennydd y Brifysgol ar drefniadau'r cyfryw ddigwyddiad o fewn 4 diwrnod o gael ei hysbysu o hynny Bydd penderfyniad yr Is-ganghellor ar y cyfryw faterion yn derfynol.

**H. DISGYBLU**

Os bydd unrhyw unigolyn neu grŵp o bobl yn gwneud y canlynol:

[a] trefnu digwyddiad heb ddilyn y gweithdrefnau a amlinellir yn y Cod hwn; neu
[b] amharu'n fwriadol, neu geisio amharu (ac eithrio heclo rhesymol); neu
[c] methu cydymffurfio â'r Cod hwn mewn unrhyw ffordd arall,

ystyrir eu bod yn torri'r Cod hwn a gellir cymryd camau disgyblu yn eu herbyn dan yr Ordinhadau a'r Rheoliadau perthnasol.

Dylai unrhyw faterion sy'n ymwneud ag Ymddiriedolwyr Undeb Myfyrwyr Bangor gael eu hystyried yn y lle cyntaf gan Undeb y Myfyrwyr, ac yna gellir eu cyfeirio at y Brifysgol (Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio). Manylir ar y weithdrefn ar gyfer ystyried digwyddiadau Undeb y Myfyrwyr ym mholisi 'Siaradwyr Allanol' Undeb y Myfyrwyr, a fabwysiadwyd gan Fwrdd Ymddiriedolwyr Undeb y Myfyrwyr ym mis Ebrill 2015 (cynhwysir fel Atodiad 2 i'r Cod Ymarfer hwn).

**I. YMCHWILIO I ACHOSION O DORRI'R COD HWN**

Mae holl aelodau'r Cyngor, myfyrwyr, staff, siaradwyr gwadd, deiliaid teitlau er anrhydedd a chyfarwyddwyr y Brifysgol a chlybiau, cymdeithasau, cynrychiolwyr cwrs, gwirfoddolwyr a swyddogion sabothol Undeb Myfyrwyr Bangor dan rwymedigaeth i gynorthwyo mewn unrhyw ymchwiliad neu wrandawiad a gynhelir gan Ysgrifennydd y Brifysgol neu fel arall i unrhyw honiadau o dorri darpariaethau'r Cod hwn.

**J. YSTYRIAETHAU CYFREITHIOL.**

Ni fydd unrhyw ran o'r Cod hwn yn effeithio ar y canlynol:-

[a] hawliau cyfreithiol unrhyw berson neu bersonau yr effeithir arnynt gan weithredu dan y Cod; a/neu
[b] hawl y Brifysgol i gymryd camau priodol, gan gynnwys camau cyfreithiol a/neu geisio iawn am ddifrod a/neu golli eiddo.

Os bydd unrhyw gamau gan bersonau dan y cod hwn yn cynnwys trosedd neu droseddau honedig, a allai fod yn achosion o dorcyfraith, bydd yn rhaid i'r Brifysgol gynorthwyo'r heddlu mewn unrhyw achosion troseddol a allai ddilyn.

**K. AWDURDODAETH**

Mae'r cod hwn yn ddarostyngedig i gyfraith Cymru a Lloegr.

**L. GWEITHREDU**

Daw'r Cod hwn i rym o 19 Ionawr 2021 a bydd yn cymryd lle'r Cod blaenorol.

## M. RHAGOR O WYBODAETH

Cysylltwch â'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio os oes gennych gwestiynau ynglŷn â chynnwys neu weithrediad y Cod hwn.

**Atodiad 1**

**RHEOLAU AR GYFER DYNODI, CYNLLUNIO A CHYNNAL DIGWYDDIADAU AC ATI, NAILL AI AR EIDDO'R BRIFYSGOL, DIGWYDDIAD YN ENW'R BRIFYSGOL A GYNHELIR ODDI AR Y CAMPWS NEU DDIGWYDDIAD YN ENW'R BRIFYSGOL A GYNHELIR AR-LEIN**

**A: <u>PRIFYSGOL BANGOR</u>**

1. Mae'r rheolau'n berthnasol i unrhyw ddigwyddiad y mae Prif Swyddog Gweithredu / Ysgrifennydd y Brifysgol wedi ei bennu'n gyfarfod dynodedig yn unol â pharagraff E y Cod Ymarfer Rhyddid i Lefaru.

2. Gall y Prif Swyddog Gweithredu / Ysgrifennydd y Brifysgol farnu bod digwyddiad yn ddigwyddiad dynodedig ar ei liwt ei hun neu mewn ymateb i wybodaeth a dderbynnir o dan reol 5 isod.

3. Wrth ystyried a oes angen cyfeirio digwyddiad dan y Cod Ymarfer hwn, dylai'r trefnydd ystyried y canlynol:

   a) A ydynt yn ymwybodol bod y siaradwr wedi ei wahardd rhag siarad ym Mhrifysgol Bangor neu mewn prifysgol arall ryw dro o'r blaen?
   b) A ydynt yn ymwybodol bod y siaradwr, ryw dro o'r blaen, wedi mynegi neu'n debygol o fynegi safbwyntiau a fyddai'n groes i'r egwyddorion a amlinellir yn Adran D y Cod Ymarfer hwn?
   c) A yw teitl neu thema arfaethedig y digwyddiad yn cyflwyno risg a fyddai'n peryglu rhyddid i lefaru dan y ddeddf?
   d) A yw'r siaradwr / thema'r digwyddiad yn debygol o ddenu unigolion a / neu grwpiau y gwyddys eu bod yn y gorffennol wedi datgan safbwyntiau sy'n groes i'r Egwyddorion a amlinellir yn Adran D y Cod Ymarfer hwn, neu a allai'r pwnc neu'r teitl ennyn ymateb emosiynol dwys gan staff a / neu fyfyrwyr y Brifysgol, a / neu'r cyhoedd?

   Os mai **nac ydy** yw'r ateb i'r cwestiynau uchod i gyd gall y trefnydd fwrw ymlaen gyda'u digwyddiad yn defnyddio'r sianelau arferol, ond awgrymir y byddai'n fuddiol tynnu sylw'r siaradwr at ofynion y Cod Ymarfer hwn.

   Os yw'r atebion i'r cwestiynau uchod yn **aneglur** gofynnir i drefnydd y digwyddiad ofyn am arweiniad gan Ddeon eu Coleg, eu Pennaeth Ysgol neu Gyfarwyddwr eu Gwasanaeth Proffesiynol, a all yna ofyn am gyngor gan y Prif Swyddog Gweithredu / Ysgrifennydd y Brifysgol neu'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio.

   Os mai **ydy** yw'r atebion i'r cwestiynau uchod dylai trefnydd y digwyddiad ddilyn y gweithdrefnau a amlinellir yn yr Atodiad hwn, Adran A. 5-7.

4. Pan fo'r Brifysgol yn credu y dylai trefnydd y digwyddiad fod wedi dilyn y gweithdrefnau a amlinellir isod, ond nad yw wedi gwneud, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i leisio pryder a, pan fo'n briodol gwneud hynny, i ystyried y digwyddiad dan y gweithdrefnau a amlinellir yn yr Atodiad hwn, Adran A. 5-7.

5. Bydd trefnydd digwyddiad y gellid yn rhesymol ddisgwyl y byddai rhyddid i lefaru dan y gyfraith yn cael ei beryglu ynddo yn hysbysu'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio am y cyfryw ddigwyddiad o leiaf dair wythnos cyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer y digwyddiad. Pe trefnir digwyddiad o'r fath gyda llai o rybudd neu os yw'r perygl o dorri'r Cod yn dod yn amlwg lai na thair wythnos cyn y dyddiad a bennwyd

ar gyfer y digwyddiad, bydd y trefnydd yn hysbysu'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio ar unwaith.

Dylai'r trefnydd hefyd roi gwybod i'r siaradwr y gallai'r digwyddiad gael ei bennu'n ddigwyddiad dynodedig, a dwyn y Cod Ymarfer a'r Rheolau parthed dynodi digwyddiad i sylw'r siaradwr.

6. Bydd y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio yn cynnal ymholiadau rhagarweiniol ynghylch y digwyddiad ac yna'n ymgynghori â'r Prif Swyddog Gweithredu / Ysgrifennydd y Brifysgol ac yn gofyn am benderfyniad ynghylch pennu'r digwyddiad yn ddigwyddiad dynodedig.

   Rhaid i'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio, wrth gael gwybod am y penderfyniad i bennu digwyddiad yn ddigwyddiad dynodedig, roi gwybod ar unwaith am benderfyniad y Prif Swyddog Gweithredu / Ysgrifennydd y Brifysgol i'r trefnydd. Ar ôl derbyn y cyfryw hysbysiad, bydd y rheolau a bennir isod yn dod i rym.

   a) Bydd trefnwyr y cyfryw ddigwyddiad yn sicrhau bod unigolyn yn cael ei benodi'n brif drefnydd y digwyddiad a rhoddir yr awdurdod priodol iddo i ymrwymo i gytundeb ar ran y trefnwyr eraill.

   b) Bydd prif drefnydd y cyfryw ddigwyddiad yn darparu manylion ysgrifenedig am y digwyddiad yn cynnwys enw'r siaradwr, testun yr anerchiad ac unrhyw drefniadau arfaethedig i ofalu am y siaradwr, yn cynnwys union amser cyrraedd a gadael y siaradwr ac asesiad risg o'r digwyddiad i'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio o leiaf 14 diwrnod cyn dyddiad arfaethedig y digwyddiad.

   c) Yna bydd y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio yn trafod y manylion a dderbyniwyd gyda chydweithwyr yn y Brifysgol (e.e. Iechyd a Diogelwch, Gwasanaethau Eiddo a Champws ac ati), ac, os bydd angen, gall ymgynghori gydag asiantaethau allanol i geisio cyngor ac arweiniad pellach i lywio penderfyniad y Brifysgol.

   d) Cyn pen pedwar diwrnod ar ôl derbyn hysbysiad o'r fath, bydd y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio, ar ôl ymgynghori â'r Prif Swyddog Gweithredu / Ysgrifennydd y Brifysgol, yn ysgrifenedig naill ai'n rhoi neu'n gwrthod caniatâd i ddefnyddio eiddo'r Brifysgol fel lleoliad y digwyddiad, neu i gynnal y digwyddiad yn enw'r Brifysgol oddi ar y campws neu ar-lein.

   e) Gall y caniatâd a roddir fod yn ddarostyngedig i unrhyw amodau y bydd y Prif Swyddog Gweithredu / Ysgrifennydd y Brifysgol yn rhesymol yn eu hystyried yn angenrheidiol i sicrhau bod y Brifysgol yn cyflawni ei chyfrifoldeb statudol o ran diogelu mynegiant o fewn y gyfraith.

   f) Bydd yn ofynnol bod y prif drefnwyr a phob un arall sy'n ymwneud a threfnu'r digwyddiad y rhoddwyd caniatâd i'w gynnal yn cydymffurfio ag unrhyw a phob amod a osodir gan y Prif Swyddog Gweithredu / Ysgrifennydd y Brifysgol dan ddarpariaethau'r Cod Ymarfer a'r rheolau hyn. Gall amodau o'r fath gynnwys:

      - gofyniad bod yn rhaid i fynediad fod trwy docyn yn unig;
      - gofyniad bod yn rhaid i wahoddiadau ar gyfer digwyddiad ar-lein fod wedi eu gwarchod â chyfrinair
      - defnyddio cadeirydd annibynnol i hwyluso'r digwyddiad a sicrhau bod modd clywed ystod o safbwyntiau;

- ffilmio'r digwyddiad i atal areithio anghyfreithlon;
- gofyn am weld unrhyw ddeunyddiau hyrwyddo cyn y digwyddiad;
- pan fo'n berthnasol, rhaid bod nifer digonol o stiwardiaid, y mae'r Prif Swyddog Gweithredu / Ysgrifennydd y Brifysgol yn fodlon eu bod yn addas, ar gael yn ogystal ag unrhyw staff diogelwch y teimla y dylent fod yn bresennol a bod y trefnwyr yn talu costau, neu ba gyfran bynnag o gostau, a ystyrir yn briodol gan Ysgrifennydd y Brifysgol, trefniadau diogelwch ychwanegol y mae o'r farn y gallent fod yn angenrheidiol.

g) Mae'n ddyletswydd ar drefnwyr unrhyw ddigwyddiad dynodedig i sicrhau nad oes dim naill ai yn y paratoadau ar gyfer y digwyddiad nac yn sut y caiff y digwyddiad ei hun ei gynnal yn torri'r gyfraith.

h) Mae'n ddyletswydd ar gadeirydd y cyfarfod, i'r graddau y mae hynny'n bosib, i sicrhau bod y gynulleidfa a'r siaradwr yn ymddwyn yn unol â'r gyfraith yn ystod y cyfarfod. Os ceir ymddygiad anghyfreithlon, mae'n ofynnol i'r cadeirydd roi rhybudd priodol ac, os bydd yr ymddygiad anghyfreithlon yn parhau, mynnu bod yr unigolion dan sylw yn gadael neu'n cael eu hebrwng allan gan y stiwardiaid neu'r staff diogelwch.

i) Ni chaniateir mynd ag unrhyw eitemau neu wrthrychau i'r adeilad lle cynhelir y digwyddiad nac i'w defnyddio yn rhywle arall ar safle'r Brifysgol mewn amgylchiadau sy'n debygol o arwain at anaf neu ddifrod.

j) Mae'n rhaid gadael eiddo'r Brifysgol, neu leoliad oddi ar y campws, a ddefnyddiwyd i gynnal y digwyddiad yn daclus ac yn lân, ac os na wneir hynny, gellir codi ar y trefnwyr am unrhyw waith glanhau ychwanegol angenrheidiol. Gellir codi arnynt hefyd am unrhyw waith trwsio angenrheidiol i eiddo'r Brifysgol o ganlyniad i'r digwyddiad. Bydd gan y Prif Swyddog Gweithredu / Ysgrifennydd y Brifysgol ddisgresiwn i fynnu taliad ymlaen llaw neu dystiolaeth ffurfiol o'r gallu i dalu costau o'r fath cyn rhoi caniatâd i gynnal digwyddiad dynodedig ar eiddo'r Brifysgol neu mewn lleoliad oddi ar y campws.

k) Bydd gan y Prif Swyddog Gweithredu / Ysgrifennydd y Brifysgol yr awdurdod i osod amodau ar nifer y gynulleidfa (neu'r nifer a wahoddir i ddigwyddiad ar-lein) a chaniatáu neu wahardd mynediad i bersonél y wasg, teledu neu ddarlledu i unrhyw ddigwyddiad dynodedig yn ôl ei ddisgresiwn absoliwt.

l) Yn ogystal â'r amrywiol amodau a amlinellir uchod, mae Cyngor y Brifysgol yn rhoi disgresiwn i'r Prif Swyddog Gweithredu / Ysgrifennydd y Brifysgol osod rhagor o amodau ar ôl ymgynghori â'r heddlu ac unrhyw awdurdod tân perthnasol. Gall, er enghraifft, ddatgan bod y cyfarfod dynodedig yn gyfarfod cyhoeddus [a fyddai'n caniatáu i'r heddlu fod yn bresennol]. Gall fynnu bod staff y Brifysgol fod yn gyfrifol am yr holl drefniadau diogelwch sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad a dynodi aelod o staff yn 'swyddog rheoli' ar gyfer yr achlysur. Y prif drefnydd fydd yn talu yr holl gostau diogelwch, costau'r heddlu neu gostau eraill. Os nad yw'n fodlon bod y cyfryw drefniadau y gellir disgwyl yn rhesymol i'r Brifysgol eu gwneud yn ddigonol i gadw trefn, gall dynnu'r caniatâd i gynnal y digwyddiad ar safle'r Brifysgol yn ôl, neu i gynnal digwyddiad yn enw'r Brifysgol oddi ar y campws neu ar-lein. Fodd bynnag, dim ond ar ôl ymgynghori, er enghraifft, â'r heddlu y byddai cam o'r fath yn cael ei gymryd fel rheol.

m) Y prif drefnydd fydd yn gyfrifol am y canlynol:-

i. Sicrhau bod yr holl baratoadau ar gyfer y digwyddiad wedi eu gwneud yn iawn;

ii. Nodi'n eglur yn unrhyw hysbysebion a yw'r digwyddiad yn gyhoeddus neu breifat;
iii. Sicrhau bod y siaradwr a'r gynulleidfa'n gweithredu'n unol â'r gyfraith a'r Cod hwn.
iv. Os digwydd ymddygiad annerbyniol, rhoi rhybuddion priodol a/neu mynnu bod yr unigolyn dan sylw'n cael ei hebrwng allan gan drefnydd y digwyddiad / stiwardiaid, staff diogelwch neu'r heddlu fel sy'n briodol, neu'n cael ei dynnu o gyfarfod ar-lein gan hwylusydd y digwyddiad. Os digwydd aflonyddwch difrifol, bydd y prif drefnydd yn dod â'r digwyddiad i ben ar unwaith;
v. Sicrhau na ellir dehongli unrhyw hysbysebion fel ysgogiad i dorri'r Cod;
vi. Ni chaniateir mynediad i unrhyw aelod o'r wasg, radio na theledu i unrhyw ddigwyddiad heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata Brand.

**B: <u>UNDEB MYFYRWYR BANGOR ac UMCB</u>**

1. Mae'r rheolau hyn yn berthnasol i unrhyw ddigwyddiad y mae Prif Swyddog Gweithredu / Ysgrifennydd y Brifysgol wedi ei bennu'n gyfarfod dynodedig yn unol â pharagraff E y Cod Ymarfer Rhyddid i Lefaru.

2. Gall Undeb y Myfyrwyr / UMCB farnu bod digwyddiad yn ddigwyddiad dynodedig ar eu liwt eu hunain neu mewn ymateb i wybodaeth a dderbynnir o dan reol 3 isod.

3. Bydd trefnydd digwyddiad y gellid yn rhesymol ddisgwyl y byddai rhyddid i lefaru dan y gyfraith yn cael ei beryglu ynddo yn hysbysu'r Cydlynydd Cyfleoedd Myfyrwyr perthnasol am y cyfryw ddigwyddiad o leiaf dair wythnos cyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer y digwyddiad. Pe trefnir digwyddiad o'r fath gyda llai o rybudd neu os yw'r perygl o dorri'r Cod yn dod yn amlwg lai na thair wythnos cyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer y digwyddiad, bydd y trefnydd yn hysbysu'r Cydlynydd Cyfleoedd Myfyrwyr perthnasol ar unwaith.

4. Dylid defnyddio'r *Ffurflen Gais am Ddigwyddiad yn Cynnwys Siaradwyr Allanol,* Undeb Myfyrwyr Bangor (Atodiad 3) ar gyfer pob cyfarfod neu weithgaredd o'r fath, a lle bo hynny'n briodol, o ddwysáu'r mater i sylw Cyfarwyddwr Undeb y Myfyrwyr, gellir cyfeirio'r mater ymhellach at y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio a fydd yn delio â'r mater fel yr amlinellir yn Adran A: uchod.

**Atodiad 2**

## Gweithdrefn Cymeradwyo Siaradwr

## Allanol Undeb Myfyrwyr Bangor

Trafodwyd a mabwysiadwyd y weithdrefn hon ym mis Ebrill 2015 yng nghyfarfod Bwrdd Ymddiriedolwyr Undeb Myfyrwyr Bangor.

Dyddiad Adolygu: 28 Ionawr, 2019

Mae angen darllen y ddogfen hon ar y cyd â: [https://www.bangor.ac.uk/governance-and-compliance/policy-register/documents/freedom-code-practice.pdf](https://www.bangor.ac.uk/governance-and-compliance/policy-register/documents/freedom-code-practice.pdf)

### A. Pwrpas y Weithdrefn

Mae'r weithdrefn hon wedi cael ei llunio i amlinellu'r camau y bydd Undeb y Myfyrwyr yn eu cymryd i gwrdd â'i ddyletswyddau mewn perthynas â Deddf Elusennau 2011 ac mae'n cydymffurfio â chanllawiau anstatudol y Comisiwn Elusennau (Ionawr 2013) sy'n awgrymu o dan y gofyniad budd cyhoeddus, y gall fod 'safbwyntiau a gweithgareddau eithafol... a all fod yn anaddas i elusen eu cynnal neu eu hyrwyddo.'

Mae'r weithdrefn hon wedi cael ei llunio mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â 'Chod Ymarfer Rhyddid i Lefaru' y Brifysgol, sydd wedi ei mabwysiadu gan Fwrdd Ymddiriedolwyr Undeb Myfyrwyr Bangor fel dogfen rwymol mewn perthynas â'r weithdrefn hon.

### B. Pwysigrwydd Rhyddid i Lefaru

Mae Undeb Myfyrwyr Bangor eisiau annog trafodaeth rydd ac agored gan fod hynny'n gonglfaen diwylliant prifysgolion. Mae hyn yn cynnwys rhannu syniadau, goddef barn pobl eraill a chael dadleuon adeiladol.

Mae Undeb Myfyrwyr Bangor yn dymuno creu a chynnal amgylchedd diogel a chroesawgar i'n myfyrwyr ar bob adeg. Mae hyn yn diogelu unigolion rhag gwahaniaethu ar sail diwylliant, rhywedd, crefydd, rhywioldeb, oed, anabledd, a chred wleidyddol. Nid yw'r rhestr hon yn gwbl gynhwysfawr.

### C. Rhoi'r Weithdrefn Hon ar Waith

Gweithredir y drefn hon pan fo staff, ymddiriedolwyr neu grŵp o fyfyrwyr sy'n gysylltiedig ag Undeb y Myfyrwyr neu sy'n derbyn cyllid gan yr Undeb yn dymuno gwahodd siaradwr allanol i gymryd rhan mewn digwyddiad ar gampws Prifysgol Bangor neu oddi ar y campws.

Er eglurder, at ddibenion y weithdrefn hon dyma'r diffiniad o 'grŵp o fyfyrwyr':

- Cymdeithasau Undeb y Myfyrwyr
- Clybiau Chwaraeon Undeb Myfyrwyr Bangor
- Projectau Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor
- Pwyllgorau Gwaith yr Undeb Athletau, Cymdeithasau a Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor
- Tîm Swyddogion Sabothol Undeb Myfyrwyr Bangor
- Undeb Myfyrwyr Bangor / Cyngor Undeb Bangor
- Cynrychiolwyr Cwrs Undeb Myfyrwyr Bangor
- Cyfuniad o'r uchod

Nid yw’r weithdrefn hon yn berthnasol i grŵp o fyfyrwyr nad yw eu gweithgareddau dan nawdd Undeb y Myfyrwyr, er y byddai Cod Ymarfer y Brifysgol yn cwmpasu grŵp o'r fath.

**D. Gweithredu**

Mae’n ofynnol i’r grwpiau a restrir uchod gyflwyno 'Ffurflen Gais am Ddigwyddiad yn Cynnwys Siaradwyr Allanol' (sy’n gynwysedig yn Atodiad i) i Undeb y Myfyrwyr gymeradwyo'r digwyddiad cyn ei hysbysebu. Rhoddir y ffurflen i’r Cydlynydd Cyfleoedd Myfyrwyr perthnasol a fydd yn adolygu'r wybodaeth, yn sicrhau bod y digwyddiad yn cyflawni gofynion statudol a rheoleiddiol ac yn cymeradwyo'r digwyddiad trwy lofnodi'r blwch priodol ar y ffurflen. Yna caiff y ffurflen ei hanfon at Ymddiriedolwr sy'n Swyddog, a fydd yn adolygu'r wybodaeth ac yn ei chymeradwyo fel cyd-lofnodwr.

Os oes gan y llofnodwr neu'r cyd-lofnodwr unrhyw amheuon, bydd y ffurflen yn cael ei hanfon at Gyfarwyddwr Undeb y Myfyrwyr i'w hadolygu a'i chymeradwyo. Os oes amheuaeth o hyd yna dylid cyfeirio'r cais at Swyddog Cydymffurfio'r Brifysgol i'w adolygu a dod i benderfyniad. Mae'n rhaid i Gyfarwyddwr Undeb y Myfyrwyr hysbysu Bwrdd yr Ymddiriedolwyr os cyfeirir cais at y Brifysgol.

Unwaith y ceir cymeradwyaeth, gellir rhoi cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad.

Os na roddir cymeradwyaeth, nodir sut mae apelio yn adran F Cod Ymarfer Rhyddid i Lefaru Prifysgol Bangor.

**E. Y Prif Drefnydd**

At ddibenion y drefn hon, rhaid i 'Brif Drefnydd' digwyddiad fod naill ai'n fyfyriwr presennol, cofrestredig neu'n aelod presennol o staff y Brifysgol.

**F. Disgyblu**

Os bydd unrhyw grŵp o fyfyrwyr:

- Yn trefnu cyfarfod heb ddilyn y Weithdrefn hon; neu,
- Yn methu cydymffurfio â’r Weithdrefn hon mewn unrhyw ffordd arall

bydd Undeb y Myfyrwyr yn ymchwilio i'r mater a gall gymryd camau gweithredu yn erbyn y grŵp o ran ymatal adnoddau a chefnogaeth, neu gymryd camau gweithredu yn erbyn unigolion drwy gyfrwng Polisi Disgyblu Undeb y Myfyrwyr sydd wedi'i gyhoeddi.

**G. Diogelu Data**

Dylid cadw cofnodion o'r drefn hon at ddibenion rheoleiddio a monitro. Er mwyn sicrhau cydymffurfiad â’r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data (1998) dim ond am gyfnod o flwyddyn yn dilyn cynnal y digwyddiad y cedwir gwybodaeth bersonol gan Undeb y Myfyrwyr.

At ddibenion gweinyddol a chydymffurfio, bydd Undeb y Myfyrwyr yn cadw cofnod o deitl y digwyddiad, y grŵp myfyrwyr, enw'r siaradwr, dyddiad y digwyddiad, a'r penderfyniad cymeradwyo am gyfnod o chwe blynedd yn dilyn cyflwyno'r ffurflen gais.

**H. Y Cyfrifoldeb dros Fonitro ac Adolygu**

Bwrdd Ymddiriedolwyr Undeb y Myfyrwyr sy’n gyfrifol am fonitro effeithiolrwydd y weithdrefn hon er bod ei gweithrediad ymarferol yn cael ei ddirprwyo i'r aelodau staff a enwir yn y ddogfen hon ac yn y

ffurflen gais gysylltiedig. Caiff Bwrdd yr Ymddiriedolwyr eu diweddaru'n rheolaidd ynglŷn â gweithrediad y weithdrefn hon gan Gyfarwyddwr UM, byddant yn cael gwybod am geisiadau am siaradwyr penodol pan fo angen, ac yn cynnal arolwg blynyddol o'r weithdrefn fel rhan o gylch busnes Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

**Cod Ymarfer**
**Rhyddid i Lefaru Prifysgol Bangor**

# Undeb y Myfyrwyr Bangor
# Ffurflen Gais am Ddigwyddiad yn Cynnwys Siaradwyr Allanol

**PRIF FANYLION**

| | |
|---|---|
| **Teitl y Digwyddiad:<br>(byddwch yn benodol)** | |
| **Disgrifiad byr o'r digwyddiad yn cynnwys testun(au) i'w trafod:** | |
| **Dyddiad arfaethedig y digwyddiad:** | |
| **Y Prif Drefnydd:<br>(yr unigolyn hwn/hon fydd y 'person cyfrifol' yn ystod y digwyddiad)** | Enw: Ffôn:<br>E-bost:<br>Rhif Myfyriwr neu Rif Staff: Cyfeiriad<br>Cyswllt: |
| **Clwb / Cymdeithas / Project neu Grŵp Undeb Myfyrwyr Bangor** | Enw:<br><br>A gynhelir y digwyddiad hwn ar y cyd neu mewn cydweithrediad ag unrhyw grŵp arall (mewnol neu allanol i UM/y Brifysgol? |

**SIARADWYR GWADD**

| **Enw(au) Llawn** | Proffil y Siaradwr (bywgraffiad byr) | A ydynt wedi siarad mewn digwyddiad clwb/cymdeithas UM Bangor o'r blaen? | A oes ganddynt ymrwymiad neu gysylltiad ag unrhyw Grŵp neu Gymdeithas? |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Manylion cyswllt y Siaradwr:** | Enw:<br><br>Ffôn: | E-bost:<br><br>Cyfeiriad Cyswllt: |

**MANYLION Y DIGWYDDIAD**

| | | |
|---|---|---|
| **Lleoliad arfaethedig y digwyddiad:** | | |
| **Digwyddiad yn dechrau:** | Dyddiad: | Amser: |
| **Digwyddiad yn gorffen:** | Dyddiad: | Amser: |
| **Disgrifiad llawn o'r digwyddiad: (Dylech gynnwys unrhyw faterion perthnasol y dylai'r Brifysgol fod yn ymwybodol ohonynt wrth gynnal y digwyddiad/os yw'r digwyddiad yn cael ei gynnal gan Glwb / Cymdeithas / Project neu Grŵp myfyrwyr)** | | |
| **Cymedrolwr/Cadeirydd:** | Myfyriwr Prifysgol Bangor **Ie/Nage**<br><br>Staff Prifysgol Bangor **Ie/Nage** | |
| **Y gynulleidfa arfaethedig:** | | |
| **Nifer y bobl a ddisgwylir** | | |
| **Manylion y camau rheoli arfaethedig (e.e. diogelwch, tocynnau, cymedroli'r drafodaeth):** | | |
| **A godir ffi mynediad?** | Er mwyn clirio costau'r digwyddiad<br><br>I'w gyfrannu i Gronfeydd y Clwb / Cymdeithas<br><br>Codi arian ar gyfer sefydliad allanol<br><br>Ie/Nage Arall (nodwch) | |
| **Os felly, sut bydd unrhyw elw o'r digwyddiad yn cael ei ddefnyddio?** | | |
| **Sut y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad? (Rhaid i chi beidio â rhoi cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad hwn cyn cael caniatâd gan Undeb y Myfyrwyr)** | | |
| **Amseroedd cyrraedd/gadael y siaradwyr allanol?** | | |

**AT DDIBEN UNDEB Y MYFYRWYR YN UNIG**

| | | |
|---|---|---|
| **Nodiadau am y Siaradwyr** | | |
| **Cymeradwywyd y digwyddiad** | | Cydlynydd Cyfleoedd Myfyrwyr |
| **Cymeradwywyd y digwyddiad** | | Ymddiriedolwr sy'n Swyddog Sabothol yn Undeb Bangor |
| **Cytunwyd ar drefniadau rheoli ychwanegol** | | |
| **Codwyd Pryderon, cyfeiriwyd ymlaen at Gyfarwyddwr Undeb y Myfyrwyr am gymeradwyaeth** | | Cyfarwyddwr Undeb y Myfyrwyr |
| **Cyfeiriwyd at y Brifysgol** | | Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio |
| **Adroddwyd am y Mater wrth Fwrdd yr Ymddiriedolwyr** | | Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio |